**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3909 (Cy.321)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn diwygio ymhellach ar Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995, sy'n gymwys i Brydain Fawr.

Mae rheoliad 3 yn diweddaru cyfeiriad at Gyfarwyddeb 95/45/EC ynghylch purdeb penodol er mwyn ymdrin â'r diwygiad i'r Gyfarwyddeb honno a wnaed gan Gyfarwyddeb 2001/50/EC o ran y manylebau ar gyfer carotenau cymysg a beta-caroten.

Mae rheoliad 4 yn diweddaru cyfeiriadau at Reoliadau 1995 yn Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981, Rheoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984, Rheoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992, Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995 a Rheoliadau Labelu Bwyd 1996.

Nid oes arfarniad rheoliadol yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi'i wneud mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3909 (W.321)

# FOOD, WALES

## The Colours in Food (Amendment)(Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which extend to Wales only, further amend the Colours in Food Regulations 1995, which extend to Great Britain.

Regulation 3 brings up to date a reference to Directive 95/45/EC on specific purity so as to cover its amendment by Directive 2001/50/EC as regards the specifications for mixed carotenes and beta-carotene .

Regulation 4 brings up to date references to the 1995 Regulations in the Jam and Similar Products Regulations 1981, the Meat Products and Spreadable Fish Products Regulations 1984, the Food Additive Labelling Regulations 1992, the Miscellaneous Food Additive Regulations 1995 and the Food Labelling Regulations 1996.

No regulatory appraisal pursuant to section 65 of the Government in Wales Act 1998 has been carried out in respect of these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3909 (Cy.321)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *4 Rhagfyr 2001* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2002* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion y Goron gan adrannau 6(4), 16(1)(a) ac (e), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**a**) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**), gan roi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol â'r Ddeddf honno â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn cynrychioli buddiannau y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol gan y Rheoliadau canlynol, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Teitl, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Teitl y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001, deuant i rym ar 1 Ionawr 2002 a byddant yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995**

**2**. Diwygir Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995(**c**), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn unol â rheoliad 3.

**3**. Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "Directive 95/45/EC", ychwanegir y geiriau

(a) 1990 p.16; diwygiwyd adran 6(4) o'r Ddeddf gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p.40) a chan baragraff 10(3) o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28) ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 17(1) gan baragraff 12(a) o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 (p.28) a diwygiwyd adran 48 gan baragraff 21 ohoni.

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau a freiniwyd yng Ngweinidogion y Goron, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1995/3124 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2000/1799 (Cy. 124)

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3909 (W.321)

# FOOD, WALES

## The Colours in Food (Amendment)(Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *4th December 2001* |
| *Coming into force* | *1st January 2002* |

In exercise of powers conferred on Ministers of the Crown by sections 6(4), 16(1)(a) and (e), 17(1), 26(1) and (3) and 48(1) of, and paragraph 1 of Schedule 1 to, the Food Safety Act 1990(**a**), and now vested in the National Assembly for Wales(**b**), having regard in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency and after consultation in accordance with that Act with such organisations as appear to it to be representative of interests likely to be substantially affected by the following Regulations, the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the Colours in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2001, shall come into force on 1st January 2002 and shall extend to Wales only.

**Amendment of the Colours in Food Regulations 1995**

**2**. The Colours in Food Regulations 1995(**c**) shall be amended, in so far as they extend to Wales, in accordance with regulation 3.

**3**. In paragraph (1) of regulation 2 (interpretation), in the definition of "Directive 95/45/EC", there shall be

(a) 1990 c 16; Section 6(4) of the Act was amended by paragraph 6 of Schedule 9 to the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (c.40) and by paragraph 10(3) of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (c.28) ("the 1999 Act"). Section 17(1) was amended by paragraph 12(a) and section 48 by paragraph 21, of Schedule 5 to the 1999 Act.

(b) Functions vested in the Ministers of the Crown were, in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1995/3124 as amended by S.I. 2000/1799(W.124).

"and Directive 2001/50/EC" ar y diwedd(**a**).

**Diwygiadau canlyniadol**

4.-(1) Caiff rheoliad 3 o Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2000(**b**) ei hepgor.

(2) Yn y darpariaethau a restrir ym mharagraff (3), caiff cyfeiriadau at Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995, i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n gymwys i Gymru, eu cymryd fel cyfeiriad at y Rheoliadau hynny fel y maent wedi'u diwygio gan Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2000 a chan y rheoliadau hyn.

(3) Dyma'r darpariaethau y mae paragraff (2) yn cyfeirio atynt -

(a) Diffiniad "permitted colour" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg 1981(**c**);

(b) Diffiniad "additive" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984(**ch**);

(c) Diffiniad "colour" yn Rhan ll o Atodlen 1 (categorïau o ychwanegion bwyd) i Reoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992(**d**);

(ch) Diffiniad "colour" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(**dd**); a

(d) Diffiniad "the additives Regulations" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996(**e**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**f**)

4 Rhagfyr 2001

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

added at the end the words "and Directive 2001/50/EC"(**a**).

**Consequential amendments**

4.(1) Regulation 3 of the Colours in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2000(**b**) shall be omitted.

(2) In the provisions listed in paragraph (3), references to the Colours in Food Regulations 1995 shall, in so far as those provisions apply to Wales, be taken to be a reference to those Regulations as amended by the Colours in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2000 and by these Regulations.

(3) The provisions to which paragraph (2) refers are -

(a The definition of "permitted colour" in regulation 2(1) (interpretation) of the Jam and Similar Products Regulations 1981(**c**);

(b) The definition of "additive" in regulation 2(1) (interpretation) of the Meat Products and Spreadable Fish Products Regulations 1984(**d**);

(c) The definition of "colour" in Part ll of Schedule 1 (categories of food additives) to the Food Additive Labelling Regulations 1992(**e**);

(d) The definition of "colour" in regulation 2(1) (interpretation) of the Miscellaneous Food Additives Regulations 1995(**f**); and

(e) The definition of "the additives Regulations" in Regulation 2(1) (interpretation) of the Food Labelling Regulations 1996(**g**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**h**)

4th December 2001

*John Marek*

The Deputy Presiding Officer, National Assembly for Wales

---

(a) Cyfeirnod Cyfarwyddeb 2001/50/EC yw OJ Rhif L 190, 12.7.2001, t.14.

(b) O.S. 2000/1799 (Cy. 124)

(c) O.S. 1981/1063; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3124

(ch) O.S. 1984/1566; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3123, 1995/3124 a 1995/3187.

(d) O.S. 1992/1978; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3124.

(dd) O.S. 1995/3187; y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(e) O.S. 1996/1499; y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.; gweler hefyd O.S. 1999/1136

(f) 1998 p.38.

(a) Cyfeirnod Cyfarwyddeb 2001/50/EC yw OJ Rhif L 190, 12.7.2001, t.14.

(b) O.S. 2000/1799 (W. 124)

(c) O.S. 1981/1063; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3124

(d) O.S. 1984/1566; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3123, 1995/3124 a 1995/3187.

(e) O.S. 1992/1978; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1995/3124.

(f) O.S. 1995/3187; y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(g) O.S. 1996/1499; y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.; gweler hefyd O.S. 1999/1136

(h) 1998 p.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3909 (Cy.321)

# BWYD, CYMRU

Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3909 (W.321)

# FOOD, WALES

The Colours in Food (Amendment)(Wales) Regulations 2001

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090400-1

9 780110 904009

£1.75

W401/01/02 ON